Cylchlythyr CCAUC

Rhifyn 4
Chwefror 2008

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

CCAUC / HEFCW, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DZ
www.hefcw.ac.uk info@hefcw.ac.uk 029 2076 1861

Yn y rhifyn hwn

1 Goleufa Gymreig newydd i ddod â'r prifysgolion a'r cyhoedd yn nes at ei gilydd
2 Lansio Sefydliad Gwyddorau'r Ymennydd yn y Senedd
3 Ymgynghori ar Ddull Newydd o Asesu Ymchwil
4 Safleoedd profiad myfyrwyr THES
5 Arolwg dilynol cyntaf AYAU o rai sy'n gadael Sefydliadau Addysg Uwch
6 Datblygiadau o ran hyfforddiant cychwynnol athrawon
7 Gwella Dysgu ac Addysgu drwy Dechnoleg
8 Cronfa datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg
9 Cyllido partneriaethau *Ymgyrraedd yn Ehangach*
10 Addysg uwch a'r economi
11 Penodiad newydd
12 Chwilio am aelodau newydd o'r Cyngor
13 Amdanom ni

Hwn yw pedwerydd rhifyn cylchlythyr newydd CCAUC (HEFCW).

Ynddo cewch wybodaeth am ddatblygiadau newydd a diweddar ym maes cyllido addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys cysylltau ag eitemau o newyddion a chylchlythyrau. Mae hefyd yn crynhoi rhai o'r prif benderfyniadau a wnaed yng nghyfarfodydd ein Cyngor.

- Bydd clicio ar eitem yn y mynegair i'r chwith yn mynd â chi i stori yn y cylchlythyr.
- Bydd clicio ar stori yn ein cylchlythyr yn mynd â chi at y we am ragor o wybodaeth.

Cysylltwch ag Emma Raczka ar 029 2068 2225 neu ar emma.raczka@hefcw.ac.uk os byddech am dderbyn y cylchlythyr hwn ar ffurf arall, er enghraifft Word, testun mawr neu Braille.

Goleufa Gymreig newydd i ddod â'r prifysgolion a'r cyhoedd yn nes at ei gilydd

Bydd modd i bobl yng Nghymru chwarae rhan fwy rhyngweithiol o lawer yng ngwaith sefydliadau addysg uwch o ganlyniad i bartneriaeth gydweithiol rhwng sefydliadau pennaf Cymru.

Mae Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Morgannwg, Amgueddfa Cymru, Techniquest a BBC Cymru wedi dod at ei gilydd a chynnig yn llwyddiannus am gael dod yn unig Oleufa Cymru ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus, a byddant bellach yn arwain y ffordd er mwyn i brifysgolion Cymru gydweithio'n nes â'r cyhoedd.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

"Mae Cymru'n dod yn enwog am fod yn 'ganolfan ymchwil' o safon ryngwladol gyda chyfoeth o ymchwil gyffrous iawn yn digwydd ym mhrifysgolion Cymru, sy'n berthnasol i'n bywydau pob dydd. Rwy'n croesawu'r fenter hon am fy mod yn hyderus y bydd yn dod â gwaith doniau academaidd Cymru i sylw cynulleidfa ehangaf."

Prif Weinidog Cymru
Rhodri Morgan

Bydd Goleufa Cymru'n annog prifysgolion i gyfrannu'n ehangach at y gymdeithas drwy ymwneud yn llawnach â chymunedau yn eu gwaith ac mae'n rhan o'r fenter fwyaf o'i bath i'w lansio yn y DU erioed.

Bwriedir sefydlu chwe Goleufa, gan gynnwys eraill ym Manceinion, Newcastle, Norwich, Llundain a Chaeredin. Bydd canolfan gydlynu hefyd ar draws y DU a fydd wedi'i lleoli ym Mryste, ac a fydd yn gweithio ar draws y fenter i hyrwyddo'r arferion gorau a darparu lle cysylltu unigol ar gyfer y sector addysg uwch yn ei gyfanrwydd.

Dewiswyd Goleufa Cymru o blith 87 cynigydd o bob cwr o'r DU, a chaiff ran yn y gronfa ariannu o £9.2miliwn dros bedair blynedd.

Gan symbylu sefydliadau addysg uwch eraill ledled Cymru, bydd Goleufa Cymru'n agor cyfleoedd i bobl y tu allan i gymunedau academaidd ddeall yn well, cefnogi a herio'r ymchwil a wnaed mewn prifysgolion.

Ariennir Goleufeydd ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus gan gynghorau cyllido addysg uwch y DU gan gynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), a Chynghorau Ymchwil y DU (RCUK), mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Wellcome.

←yn ôl

Lansio Sefydliad Gwyddorau'r Ymennydd yn y Senedd

Cafodd sefydliad ymchwil pwysig yng Nghymru ar gyfer 'gwyddorau'r ymennydd' ei lansio'n ffurfiol yn Adeilad Senedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd ddydd Mercher, 28 Tachwedd. Mae Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru (WICN), yn cynnwys Prifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe, yn dod â rhagoriaeth ymchwil bresennol ym maes niwrowyddoniaeth wybyddol at ei gilydd.

Yn y flwyddyn gyntaf yn unig, penodwyd mwy na dwsin o ymchwilwyr o safon ryngwladol ym mhrifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Yn y cyfamser, mae academyddion ac ymchwilwyr yn y tair Canolfan wedi dechrau cydweithio ar ddwsinau o brosiectau ymchwil.

Wrth gyfuno adnoddau ac arbenigedd, a rhannu costau technoleg ddrud, mae WICN yn galluogi ymchwil niwrowyddoniaeth wybyddol Cymru i gystadlu â sefydliadau gorau'r byd am arian ymchwil.

Bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd posibl i fanteisio'n economaidd ac yn fasnachol ar ddatblygiadau newydd yn y maes hwn, gan weithio'n ddyfal gyda diwydiant a'r sector gofal iechyd i'r perwyl hwn.

Mae WICN yn derbyn cyfanswm gwerth £5.17 miliwn o gefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio HEFCW.

←yn ôl

Ymgynghori ar Ddull Newydd o Asesu Ymchwil

Mae HEFCW a chyrff cyllido addysg uwch eraill y DU wedi cyhoeddi cynigion ynglŷn â fframwaith asesu ymchwil y dyfodol - Fframwaith Ymchwil Rhagorol - i'w gyflwyno yn 2008.

Mae HEFCW yn awyddus i sicrhau parhad system gadarn o asesu ansawdd ymchwil ar draws y DU, ac mae'n gweithio gyda HEFCE a chyrff cyllido eraill y DU ar ddatblygiad y trefniadau asesu newydd. Mae pob un o gyrff cyllido'r DU yn ymgynghori â'r Sefydliadau Addysg Uwch ar y cynigion.

←yn ôl

Rydym wedi gwahodd pobl i ymateb i'r ymgynghori erbyn 14 Chwefror.

Safleoedd profiad myfyrwyr THES

Roedd pedair prifysgol yng Nghymru – Aberystwyth, Bangor, Abertawe a Morgannwg – ymhlith 16 uchaf arolwg newydd profiad myfyrwyr y THES.

Yr arolwg hwn, lle rhoddodd israddedigion sgôr i'w sefydliadau ar 21 ffactor a ddewiswyd gan fyfyrwyr, gan gynnwys cymwynasgarwch y staff, amgylchedd y campws a lles myfyrwyr, yw'r cyntaf o'i fath gan y THES, ac roedd cyfanswm o bum sefydliad yng Nghymru ymhlith 50 uchaf y DU.

Daw hyn yn sgil llwyddiant Prifysgol Morgannwg i gyrraedd rhestr fer 'Prifysgol y Flwyddyn' yng Ngwobrau THES 2007.

←yn ôl

Arolwg dilynol cyntaf AYAU o rai sy'n gadael Sefydliadau Addysg Uwch

Cyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg dilynol (Hydredol) cyntaf erioed o rai sy'n gadael sefydliadau addysg uwch, dair blynedd a hanner ar ôl iddynt ennill eu cymwysterau, gan Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU).

Gwnaed arolwg o'r graddedigion hyn yn gyntaf chwe mis ar ôl iddynt ennill eu cymwysterau.

Ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, dangosodd fod canran y graddedigion mewn gwaith cyflogedig amser llawn wedi cyrraedd 74% (i fyny o 57% pan wnaed yr arolwg yn gyntaf); roedd 6% o'r graddedigion mewn gwaith cyflogedig rhan amser yn unig (7% pan wnaed yr arolwg yn gyntaf); roedd 5% yn gwneud astudiaethau

Oeddech chi'n gwybod?

Mae sefydliadau addysg uwch yn cynhyrchu mwy na 30,000 o raddedigion ac ôl-raddedigion yng Nghymru bob blwyddyn.

astudiaethau pellach (14% pan wnaed yr arolwg yn gyntaf); roedd 9% yn gwneud cyfuniad o waith ac astudiaethau pellach (11% pan wnaed yr arolwg yn gyntaf); a thybiwyd bod 2% yn ddi-waith (5% pan wnaed yr arolwg yn gyntaf).

Cliciwch yma am wybodaeth ynglŷn â digwyddiadau sydd ar ddod

Mae'r data yn y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar atebion 24,825 o raddedigion o flwyddyn raddio 2002/03 i Arolwg Hydredol.

←yn ôl

Datblygiadau o ran hyfforddiant cychwynnol athrawon

Ysgrifennom at y sector Addysg Uwch i roi gwybod iddynt am dargedau cyffredinol, ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) yn 2008/09. Er bod y targedau'n dangos llai o ostyngiad o ran targedau'r nifer a dderbynnir ar gyrsiau cynradd o'u cymharu â'r targedau a fynegwyd ac a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf 2006, arhosodd y targedau uwchradd cyffredinol yr un peth.

Mae sector HCA yng Nghymru'n cael ei ail-gyflunio, yn dilyn argymhellion adolygiad Furlong o HCA yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn ysgrifenodd HEFCW i gadarnhau targedau sefydliadol o ran y nifer a dderbynnir yn 2008/09 ar ddechrau 2008.

←yn ôl

Gwella Dysgu ac Addysgu drwy Dechnoleg: Strategaeth ar Gyfer Addysg Uwch yng Nghymru

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddom y byddem yn neilltuo £1 filiwn ychwanegol i gefnogi ac annog sefydliadau i fanteisio ar y cyfleoedd a ddarparwyd gan y dechnoleg i gyrraedd amcanion ein strategaeth ar gyfer gwella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg.

←yn ôl

Cronfa datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Penderfynir ar fanylion pellach ynglŷn â'r union drefniadau ar gyfer dyrannu'r Gronfa o 2008/09 yng nghyfarfod y Cyngor yn Chwefror 2008.

Ym mis Rhagfyr, cyflwynom ganlyniadau'r ymgynghori ar Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg HEFCW a'n penderfyniadau yn sgil hynny.

Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Llywio Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (HESG) a Chanolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg i lunio rhaglen datblygu a chyllido ar gyfer y sector y bydd modd dyrannu'r Gronfa yn ei herbyn.

←yn ôl

Cyllido partneriaethau *Ymgyrraedd yn Ehangach*

Cadarnhaom fod ychydig dros £2 filiwn y flwyddyn ar gael i bartneriaethau *Ymgyrraedd yn Ehangach* sefydliadau Cymru yn 2008/09 a 2009/10 er mwyn iddynt ariannu gweithgareddau ar draws Cymru gyfan.

Cliciwch yma i weld y cylchlythyrau diweddaraf gan HEFCW.

Yn ogystal â gweithio tuag at dargedau presennol *Ymgyrraedd yn Ehangach* o ran myfyrwyr o Gymunedau'n Gyntaf, myfyrwyr anabl, myfyrwyr o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg, dangosodd ein cyfarwyddiadau y dylai partneriaethau hefyd ystyried cynnal cynlluniau ychwanegol ar gyfer dysgu sy'n seiliedig yn y gwaith, rhai sy'n gadael gofal ac mewn cymunedau sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg. Dylai'r partneriaethau weithio hefyd i godi proffil gweithgareddau *Ymgyrraedd yn Ehangach*.

←yn ôl

Addysg uwch a'r economi

Ym mis Rhagfyr, cyflwynom dystiolaeth, ac ymddangos gerbron Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i gyfraniad economaidd addysg uwch.

Oeddech chi'n gwybod?

Mewn un flwyddyn, mae sefydliadau addysg uwch Cymru'n cyfrannu mwy na £1 biliwn mewn gwariant gros i economi Cymru.

Esboniom sut yr oedd AU yn cyfrannu at economi Cymru mewn tair ffordd yn bennaf:

- fel cyflogwyr, defnyddwyr nwyddau a gwasanaethau (fel pob sefydliad arall);
- drwy ddarparu pobl fedrus; a
- thrwy ddefnyddio gwybodaeth.

Cynigiom fod angen i farn gytbwys a theg ystyried y tair ffordd. Yn wir, dywedom nad yw llawer o ganlyniadau gweithgareddau Sefydliadau Addysg Uwch yn economaidd, ar yr olwg gyntaf, ac eto eu bod yn cyfrannu at berfformiad economaidd.

Cydnabyddom hefyd yr her a wynebai Sefydliadau Addysg Uwch wrth gyfrannu i'r economi yn y dyfodol.

←yn ôl

Nod CCAUC
Ein nod yw hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru o'r radd flaenaf, er lles unigolion, cymdeithas a'r economi, yng Nghymru ac yn ehangach.

Penodiad newydd

Rydym yn falch tros ben o allu cyhoeddi, ar ôl cystadleuaeth agored, i Dr David Blaney, cyn-bennaeth Cyllido, Ymchwil ac Ailgyflunio, gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Datblygu Strategol. Bydd David yn arolygu dau dîm yn ei gyfarwyddiaeth datblygu strategol er mwyn rhoi cyngor am gyllido, dadansoddi a mentrau polisi ar AU yng Nghymru.

←yn ôl

Cyfarfodydd y Cyngor:
1 Chwefror 2008
14 Mawrth 2008
9 Mai 2008

Chwilio am aelodau newydd o'r Cyngor

Daw telerau nifer o aelodau ein Cyngor i ben o fewn yr ychydig fisoedd nesaf. Gwyliwch am hysbysebion yn y wasg ar gyfer aelodau newydd dros yr wythnosau sydd i ddod.

←yn ôl

Amdanom ni

Mae CCAUC yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn dosrannu arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn 11 sefydliad addysg uwch.

Rydym hefyd yn cyllido gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru a chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Nid ydym yn cyllido myfyrwyr yn uniongyrchol.

Yn ychwanegol at ein cyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllido, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru

←yn ôl

www.hefcw.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r materion yn y newyddlen hon, neu unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yng Nghymru, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** neu ffonio **029 2076 1861.**

I **dynnu'ch enw oddi ar restr danysgrifio'r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** gyda'r geiriau 'tynnu enw tanysgrifio i'r newyddlen'yn y blwch pwnc.

I gael cyngor am gyllid ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru, ewch i **Cyllid Myfyrwyr Cymru.**